CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 16eg IONAWR 2023** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

Cadeirydd yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb

YN BRESENNOL :
Cyng. Non W. Parry - Cadeirydd

Cyng. Terry Jones
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. T. Victor Hughes
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Margaret Thomas
Cyng. Christine Roberts
Cyng. Eleri Ll. Burns (TEAMS)

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Dylan W. Rees
Geraint Bebb

Clerc : H. Rhys Parry
Cymhorthydd : Ms.Linda Powell

Cyfarfod yn cael ei Recordio

22/178 Ymddiheuriadau : Cyng. John Lee, Cyng. Henry D. Jones, Cyng. Gwenan Ll. Evans, Cyng. Richard Parry

22/179 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

22/180 Heddlu Gogledd Cymru : Cadeirydd yn datgan fod dim Cynrychiolydd o'r Heddlu wedi mynychu'r Cyfarfod heno oherwydd pwysa gwaith. Bydd Swyddogion yn mynychu'r Cyfarfodydd Llawn, pan fyddent ar gael.

1 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol : Cadeirydd yn adrodd fod yr Heddlu yn ymwybodol fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud a chyffuriau yn mynd ymlaen o gwmpas Capel y Fynwent, Lon Newydd. Cadeirydd yn rhoi gwybod fod problemau cyffuriau yn ardal y Dingle hefyd. Aelodau yn pryderu fod gynnau aer/gynnau BB yn cael eu defnyddio o gwmpas y dref i saethu at ffenestri. Bydd y pryderon uchod yn cael eu hanfon ymlaen at yr Heddlu. **Derbyn**

22/181 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 12.12.2022
Cyng. Ieuan G. Davies yn Cynnig a Cyng. Victor Hughes yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod fel rhai cywir.

22/182 I Ystyried Materion yn codi o Gofnodion 12.12.2022
1 Cadeirydd yn adrodd os oedd unrhyw gwestiynau yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod. Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa. **Derbyn**

22/183 Cynllunio
Cyflwynwyd Cofnod o Gyfarfod Pwyllgor Cynllunio 10.01.2023 a PENDERFYNWYD derbyn eu cynnwys.

22/184 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebion y Maer

Y Maer, Cyng. Non W. Parry yn adrodd fod wedi bod yn gyfnod distaw ar y cyfan a chyflwynwyd yr isod, er gwybodaeth :

1 02.12.2022 – Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen – Llythyr o ddiolch gan Virginia Crosbie AS;

2 16.12.2022 – Gwasanaeth "Tree of Lights", Clwb Rotary – Yn absenoldeb y Maer, Cyng. John Lee, Dirprwy Faer, wedi mynychu'r Gwasanaeth;

3 Cystadleuaeth Arddangosfa Ffenestri Nadolig : Enillwyr - 1af Becws Gwalia, Cyd 2il, Siop Cain/Emberwood, 3ydd Siop Look Around Sport. Cyng. John Lee wedi cyflwyno'r Placiau i'r enillwyr. Lluniau wedi eu rhoi ar safle We a Thudalen Facebook y Cyngor Tref.

22/185 Materion yn codi gan Aelodau

1 **Materion Priffyrdd :** Cyng. J. Huw Owen a Cyng. Margaret Thomas yn datgan pryder fod cyflwr palmentydd y dref yn beryglus ac yn fater diogelwch i gerddwyr oherwydd eu bod yn llithrig mewn mannau.

Cyng. Victor Hughes yn ychwanegu, yn ystod cyfnodau o rew, bod angen i Gyngor Sir Ynys Môn drefnu i raeanu, nid yn unig y prif ffyrdd, ond y cyffyrdd sydd yn arwain at y priffyrdd, yn enwedig o gwmpas Ystadau o dai, er enghraifft, ardal Penrallt ac Ystâd Dol Werdd.

Yn dilyn trafodaeth ar yr uchod a mewnbwn gan Cyng. Dylan Rees ynglŷn â chynllun adnewyddu palmentydd, **PENDERFYNWYD** anfon e-bost i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn tynnu'r pryderon uchod i'w sylw.

2 **Rhaglen y Cyfarfod Llawn :** Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau, os bu unrhyw gynnig/eitem i'w gynnwys ar y Rhaglen gan Gynghorydd, bydd angen rhybudd ysgrifenedig o hyn, trwy'r Swyddfa, o leiaf pum diwrnod cyn dyddiad y Cyfarfod. **Derbyn**

22/186 Adroddiad y Clerc :

Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Trosglwyddo Cae Criced :** Yn dilyn o Gofnodion 12.12.2022, Cyng. Richard Parry wedi cynnig cysylltu gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr i holi ymhellach beth ydyw'r oedi yn derbyn yr Adroddiad gan y Bargyfreithiwr. Yn absenoldeb Cyng. Parry, y Clerc yn adrodd fod y gwaith wedi ei gwblhau a bod dim problem gyda'r Adroddiad. Bydd y Clerc yn dilyn hyn i fynnu gyda Chyfreithiwr y Cyngor Tref. Cyng. Victor Hughes yn anfodlon iawn gyda'r oedi afresymol.

2 **Difrod - Ystafelloedd Newid, Lon Newydd :** Clerc yn rhoi gwybod, yn ystod gwyliau'r Nadolig, fod pibell dwr wedi byrstio yn yr ystafelloedd newid yn achosi difrod i'r to a'r ystafelloedd newid. Yn dilyn cysylltiad trwy Cyng. Ieuan Davies, bu llawer o gymorth gan wirfoddolwyr Clwb Pêl Droed Ieuenctid Llangefni, i wneud y gwaith atgyweirio a glanhau. Erbyn hyn mae'r gwaith wedi eu cwblhau a'r adeilad yn cael ei ddefnyddio fel o'r blaen. Y Clerc yn sicrhau'r Aelodau fod y Tirmon yn gwirio'r adeilad yn ddyddiol. **Derbyn**

3 **Y Fynwent :** Clerc yn trosglwyddo'r Eitem yma i Cyng. Victor Hughes. Cyng. Hughes yn arwain yr Aelodau trwy e-bost wedi ei dderbyn gan Gwmni Eryri Arboriculture i wneud asesiad o'r coed a'r glaswelltir ar y tir sydd wedi ei glustnodi ar gyfer ei ddatblygu. Derbyniwyd dau bris, sef y cyntaf yn cynnwys Arolwg NVC (National Vegetation Classification) £4100 a'r ail gost o £2950 ddim yn cynnwys Arolwg NVC.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD,** ar hyn o bryd, mynd ymlaen gyda'r Asesiad £2950, ond os bydd rhaid, i'r dyfodol, cael Arolwg yn cynnwys NVC, bod rhyddid gan y Clerc i fynd ymlaen gyda hyn heb ddod a'r mater yn ôl i'r Cyfarfod Llawn. Aelodau i gyd yn cytuno.

4 **Teithiau Llesol - Diweddariad :** Clerc wedi cyfathrebu gyda Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â'r prosiect o osod Meinciau yn y mannau dynodedig. Mae'r meinciau wedi cyrraedd depo'r Cyngor Sir, bydd Contractwyr yn gosod y meinciau pan fydd y tywydd yn

PARHAD 22/186

bodoli. Cyng. Terry Jones yn diolch am y wybodaeth yma.

5 **Aelod Seneddol :** Clerc yn adrodd fod Virginia Crosbie AS wedi ysgrifennu i'r Swyddfa yn diolch am ei gwahodd i Achlysuron diweddar y Cyngor Tref. Wrth ysgrifennu, cynigiodd yr AS ei chymorth gydag unrhyw brosiectau parhaus neu i'r dyfodol sydd ar y gweill ganddom. Clerc yn awgrymu efallai holi pe bai unrhyw gymorth i gael tuag at ddatblygu'r Fynwent. Bu dim trafodaeth bellach ar hyn ond **PENDERFYNWYD** anfon llythyr yn ôl i'r AS i ddweud buasai'r Cyngor Tref yn ddiolchgar o unrhyw gymorth a diolch am ei diddordeb.

22/187 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol

1 **Cyfarfod Cyngor Coleg Llangefni 22.11.2022 – Cofnodion yn Atodol – er gwybodaeth.** Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Grŵp, sef Cyng. Richard Parry am wneud ymholiadau i drefnu ymweliad o'r safle. Mwy o wybodaeth gan Cyng. Parry yn y Cyfarfod nesaf. **Derbyn**

22/188 Cyllid

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Rhagfyr 2022**
Cadeirydd yn adrodd fod neb wedi cysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod ynglŷn â materion yn codi o'r uchod. Cyng. Christine Roberts yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i dderbyn y Fantolen. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Rhagfyr 2022.

2 **Precept 2023-2024 – I Dderbyn Ffigwr y Precept am y flwyddyn 2023-2024**
Cadeirydd yn trosglwyddo'r Eitem yma i'r Clerc esbonio'r ffigyrau i'r Aelodau. Clerc yn arwain yr Aelodau trwy grynodeb o gynllun gwariant y Cyngor o Ebrill 1af 2023, a hefyd gwariant misol sydd yn ymddangos ar y Fantolen Ariannol. Clerc yn cadarnhau fod Amcangyfrif Nifer y Tai wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn ac yn rhedeg trwy'r cynnydd i bob eiddo. Oherwydd chwyddiant a chostau ychwanegol, megis, adnewyddu Goleuadau Nadolig a gwariant yn y Meysydd Chwarae, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** codi'r Precept £1.78 y mis, ar gyfer pob eiddo.

22/189 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :

1 **Cynghorwyr Sir, Dylan W. Rees a Geraint Bebb, yn adrodd ar y canlynol :**

- Cyllideb Cyngor Sir Ynys Môn - Argymhelliad o godiad 5% - Pwyllgor Scrutiny a'r Cyngor Llawn yn edrych ar hyn yn y dyddiau nesaf;
- 18fed Ionawr 2023 – Torri Torchan Ysgol y Graig;
- Amgueddfa Cymru - Taith Celf Cymru : Arddangos yn Oriel Môn 11.02.2023 hyd at 14.05.2023;
- Angladd y Diweddar Cyng. Alun Mummery – Cofio yn dyner amdano a chydnabod ei holl waith da dros y blynyddoedd.
- Gwaith yn mynd ymlaen ar Ysgol Newydd Corn Hir;
- Dwr Cymru yn bwrw ymlaen gyda'r system draenio'r Ysgol

22/190 Gohebiaeth a Materion Newydd :
Gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn :

1 Gwahardd Traffig Rhif 1 – Lon Hendre, Tregaian;
2 Gwahardd Traffig Rhif 2 – Lon Hendre, Tregaian;
3 Gwaith Priffyrdd – Ysgol Corn Hir
4 Y Wybodaeth uchod wedi eu hanfon trwy e-bost i'r Aelodau **Derbyn**

22/191 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :
Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Rhagfyr 2022 :

1 Un Llais Cymru - Derbyn
2 Materion Eraill - Derbyn

22/192 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Maer :

1 **Cais i Godi Trwydded Adran 142 ar Gyfer Ardal y Cyngor Tref :** Cadeirydd yn trosglwyddo'r Eitem yma i'r Clerc. Clerc yn darllen cais wedi derbyn trwy e-bost gan drigolyn yn gofyn am unrhyw ofynion i barhau i dacluso a phlannu planhigion ar y Cylchfan ar ddiwedd Lon Penmynydd, Llangefni, eto eleni. Bu holi Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn, ynglŷn ag unrhyw reoliadau neu gyfyngiadau. Derbyniwyd cyngor bydd angen Trwydded Adran 142 a gyhoeddwyd o dan "Highways Act 1980". Bydd y Cyngor Sir dim ond yn ystyried rhoi Trwydded Adran 142 i Gynghorau Cymuned neu Dref i osod a chynnal potiau blodau ar y briffordd.
Yn dilyn trafodaeth, yr Aelodau yn gefnogol o'r cais, a'r Clerc yn cadarnhau fod Yswiriant "Public Liabiity" y Cyngor Tref mewn lle hefyd. Cyng. Eleri Burns yn awgrymu, efallai bod Grantiau Cymunedol ar gael i brynu blodau a.y.b. - rhywbeth i edrych arno i'r dyfodol.
PENDERFYNWYD, fel a ganlyn :

- Gwneud ymholiadau gyda Pheiriannydd Grŵp - Rheolwr Gwaith Stryd a Gorfodaeth Parcio'r Cyngor Sir am oblygiadau a chost o gael Trwydded Adran 142 trwy'r Cyngor Tref;
- Rhoi gwybod i'r Ymgeisydd fod y Cyngor Tref yn edrych i mewn i godi'r Drwydded a gwneud dim gwaith ar y Cylchfan ar hyn o bryd nes derbyn mwy o wybodaeth gan y Cyngor Tref;
- Cynnwys Eitem ar Raglen Cyfarfod Llawn mis Chwefror i drafod y mater yma ymhellach ar ol derbyn gwybodaeth gan y Cyngor Sir.

Cyng. Dylan Rees yn awgrymu mewnbwn y 5 Tref/Trefi Môn.

22/193 Dyddiad y Cyfarfod nesaf :

1 Cyfarfod Llawn Nos Lun 13eg o Chwefror 2023.

Amser darfod : 7.30y.h.

Arwyddwyd gan ***CYNG. NON W. PARRY***

CADEIRYDD